

Patrwm cyflwyno O fis Chwefror i fis Ionawr
O fis Hydref i fis Hydref

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar Gam 1 (EE811) ac yn ystyried yr agweddau allanol a strategol ar arweinyddiaeth ym maes addysg, gan gynnwys effaith ffactorau sefydliadol mewnol ac amgylcheddol, damcaniaethau arwain, safbwyntiau a gwerthoedd, gan arwain at archwilio newid strategol. Mae'r modiwl hwn hefyd yn ystyried yr ymchwil sy'n sail i'r damcaniaethau, yn canolbwyntio ar ddysgu o brofiad ac ymarfer myfyriol, ac yn helpu'r myfyrwyr i archwilio materion a phryderon presennol yn eu lleoliad ymarfer eu hunain. Mae'r modiwl yn defnyddio cyfuniad o ddulliau dysgu, gan gynnwys dysgu â chyfoedion, Darllenydd Modiwlau Ar-lein sy'n cynnwys deunydd gan y prif awduron yn y maes a deunydd clyweledol sy'n cynnwys enghreifftiau o arweinyddiaeth yn y DU a rhyngwladol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd uwch berthnasol, ar lefel meistr o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel ddoethurol
- profiad o addysgu ar lefel meistr ar-lein;
- gwybodaeth am ddamcaniaethau, fframweithiau a dulliau weithredu ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth addysgol;
- gwybodaeth am bolisi addysg ac ymarfer mewn amrywiaeth o leoliadau;
- y gallu i ddatblygu defnydd myfyrwyr o lenyddiaeth, ynghyd â'i dewis a'i dadansoddi'n feirniadol;
- y gallu i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o brosesau ymchwil;
- tystiolaeth o annog deialog, rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac ymarfer arloesol mewn perthynas â hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol;
- tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein;
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' ac ymgysylltu ar y cyd, a hynny o fewn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth addysgol ac i rannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr a myfyrwyr;
- ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaeth â chymheiriaid am addysgu a dysgu – yn enwedig addysgeg ar-lein;
- ymrwymiad i hwyluso cymorth cyfoedion ymhlith y myfyrwyr;
- profiad o ymchwilio i arweinyddiaeth a rheolaeth addysgol neu bynciau cysylltiedig eraill.

Credydau a ddyfennir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

Disgwylir i'r Darlithwyr Cyswllt hefyd farcio a dilysu'r aseiniadau diwedd modiwl a gyflwynir gan eu myfyrwyr a byddant yn derbyn taliad ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn. Yn yr un modd, cânt eu gwahodd i ailfarcio'r aseiniadau diwedd modiwl a gyflwynir gan fyfyrwyr y tu allan i'w Grŵp Tiwtora

a byddant yn derbyn taliad ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn hefyd, os ydynt yn gallu ac yn dewis gwirfoddoli i gwblhau'r gwaith ychwanegol hwn.